

## Ruth Coombs

Pennaeth Cymru, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

23 Awst 2018

Annwyl Ruth,

### Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20

Fel y gwyddoch, bydd pwyllgorau'r Cynulliad yn craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20 yn ystod tymor yr hydref. Eleni, mae tri phwyllgor – y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau – yn bwriadu cydweithio fel rhan o'r broses graffu.

Fel rhan o ymgynghoriad rhanddeiliaid y Pwyllgor Cyllid cyn y gyllideb, galwyd am fewnbwn gwell i'r broses gyllideb ddrafft o safbwynt plant a phobl ifanc. Fel Comisiwn, gwnaethoch alw hefyd am ragor o waith craffu ar ansawdd asesiadau effaith.

Gan fod hyn yn cyd-fynd â materion a drafodwyd dros y blynyddoedd diwethaf gan y tri Phwyllgor yn ein gwaith craffu cyllidebol priodol, byddwn yn cynnal cyfarfod ar y cyd ddydd lau 15 Tachwedd i'w trafod ymhellach. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ac Arweinydd y Tŷ wedi cytuno i roi tystiolaeth ar y diwrnod hwnnw, rhwng 14:15 a 15:15. Rhestrir rhai o'r themâu sy'n debygol o gael eu cynnwys yn y sesiwn gyda Gweinidogion Cymru yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

**Er mwyn llywio ein gwaith, hoffem wahodd cynrychiolydd o'r Comisiwn i roi tystiolaeth lafar brynhawn dydd lau 15 Tachwedd, 13:30 - 14:15.** Caiff y Comisiynydd Plant hefyd ei gwahodd i roi tystiolaeth ochr yn ochr â chi, gyda'r bwriad o drafod materion trawsbynciol, yn ogystal â materion sy'n benodol i'ch meysydd arbenigedd priodol. Rydym yn cydnabod bod materion sy'n ymwneud ag asesu effaith y tu hwnt i gylich gwaith ein tri phwyllgor. Fodd bynnag, rydym yn gobeithio y bydd y sesiwn hon yn llywio gwaith craffu ar faterion cyllidebol trawsbynciol yn y dyfodol.



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

✉ Pwyllgorau@cynulliad.cymru  
☎ 0300 200 6565

**National Assembly for Wales**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

✉ Committees@assembly.wales  
☎ 0300 200 6565

Byddem yn croesawu papur ysgrifenedig byr gennych, gan amlinellu eich barn mewn perthynas â'r asesiadau effaith sy'n cyd-fynd â chyllidebau drafft Llywodraeth Cymru. Hoffem ei gael erbyn **dydd Mercher 31 Hydref 2018 fan bellaf**.

Yn gywir,

**Y Pwyllgor Cyllid**

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.



## **ATODIAD – Themâu craffu dangosol ar gyfer y sesiwn bwyllgor ar y cyd ar asesiadau effaith cyllidebau drafft gyda Gweinidogion Cymru**

- **dull yr asesiad effaith integredig strategol** eleni;
- **gwelliannau penodol a wnaed i'r asesiad effaith integredig strategol** ers [adolygiad 2016 o asesiadau effaith Llywodraeth Cymru](#);
- sut y llywiodd yr **Adolygiad Cyflym o Gydraddoldeb Rhywiol** y ffordd y cynhaliwyd yr asesiad effaith integredig strategol eleni;
- sut y mae **hawliau plant** wedi'u trafod a'u hasesu ar gyfer y gyllideb ddrafft hon, yn unol â dyletswydd sylw dyledus Llywodraeth Cymru i CCUHP (i gynnwys manylion am benderfyniadau a wnaed mewn perthynas â darparu asesiad annibynnol o'r effaith ar hawliau plant, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a'r rhesymeg sylfaenol am y penderfyniadau hynny);
- sut roedd **effaith benthyciadau Llywodraeth Cymru a phwerau treth incwm newydd** yn llywio'r asesiad effaith integredig strategol;
- sut y mae'r asesiad effaith integredig strategol yn dangos **effaith ariannol** penderfyniadau Llywodraeth Cymru;
- sut y cafodd **Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg** ynghyd ag **Adolygiad Cyflym o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20**, a wnaeth argymhellion penodol ynghylch buddsoddi cyfalaf, effaith ar yr asesiad effaith integredig strategol eleni.

